LLOYD, VAUGHAN (1736 - 1817), cadfridog

Enw: Vaughan Lloyd
Dyddiad geni: 1736
Dyddiad marw: 1817
Rhiant: Mary Lloyd (née Phillips)
Rhiant: John Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cadfridog
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Ffos-y-bleiddiaid (gerllaw Ystrad Meurig), 17 Ionawr 1736, yn fab ieuengaf i John Lloyd a'i wraig Mary (Phillips, o Sir Benfro); ar y teulu, gweler *Some family records ... of the Lloyds*, gan Lloyd-Theakston a Davies, mynegai - symudasant o Ffos-y-bleiddiaid i Mabws ym mhlwyf Llanrhystyd. Ymunodd Vaughan Lloyd â'r magnelwyr; yr oedd ym mrwydr enwog Minden (1759), yn y garsiwn a lwyddodd i gadw Gibraltar (1779-80), ac yn India'r Gorllewin (1795-6) gydag Abercromby. Yr oedd wedi esgyn i radd cadfridog llawn, ac yn bennaeth yn Woolwich, pan fu farw 16 Ionawr 1817.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Cambrian Register (1795–1818), iii, 525

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734552

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu